# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 2 Mai 2002

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif y Cwestiwn gwreiddiol mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar safbwynt ei lywodraeth ynghylch gweithredu yn erbyn eiddo'r Cynulliad gan Gymdeithas yr Iaith. (WAQ17421)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Ai polisi'r Prif Weinidog yw gofyn am ymddiswyddiad Dirprwy Weinidog sy'n cefnogi difrod troseddol yn erbyn eiddo'r Cynulliad. (WAQ17422)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Ai polisi'r Prif Weinidog yw gofyn am ymddiswyddiad Gweinidog sy'n cefnogi difrod troseddol yn erbyn eiddo'r Cynulliad. (WAQ17423)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brinder Strychnine sy'n atal rheoli gwahoddod yng Nghymru. (WAQ17424)

**Ieuan Wyn Jones (Ynys Mon);** Yn ychwanegol at eich ateb ar 24 Mawrth 2002 i WAQ17101, a yw'r system rheoli mewnol wedi nodi unrhyw enghreifftiau o dwyll neu gamddefnyddio cymorthdaliadau. Os felly, a allech ddarparu'r manylion gan gynnwys y symiau sydd o dan sylw. (WAQ17425)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Lywodraeth Leol a Chymunedau

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Yn ychwanegol at eich datganiad ysgrifenedig ar y Gyllideb ar 18 Ebrill, a wnewch ddatganiad yn esbonio o ganlyniad i ba gais llwyddiannus gan Adrannau Llywodraeth y DU y mae'r Cynulliad wedi cael dyraniad o £6.858 miliwn ym 2002-2003 o ganlyniad i Fformiwla Barnett. (WAQ17426)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Yn ychwanegol at eich datganiad ysgrifenedig ar y Gyllideb ar 18 Ebrill, a wnewch ddatganiad yn esbonio, o ganlyniad i ba gais llwyddiannus gan Adrannau Llywodraeth y DU, y mae'r Cynulliad wedi cael dyraniadau o £2.564 miliwn yn 2002-03 a £1.923 miliwn yn 2003-04 o ganlyniad i addasiadau Fformiwla Barnett. (WAQ17427)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sylwadau y mae wedi'u cael ynghylch y ffordd fynediad i ddatblygiad Doc Deganwy. (WAQ17428)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A gaiff trigolion sy'n byw yng nghyffiniau'r ardal lle y bwriedir lledu'r M4 rhwng Coryton a Chas-bach, yn enwedig ar hyd y llwybrau gorllewinol, iawndal am unrhyw effaith negyddol ar eu heiddo. (WAQ17429)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Beth yw'r amcangyfrif o gost y cynllun arfaethedig i ledu'r M4 rhwng Coryton a Chas-bach. (WAQ17430)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** beth yw cyfanswm y tir y bydd ei angen er mwyn hwyluso lledu'r M4 rhwng Coryton a Chas-bach. (WAQ17431)

**David Davies (Mynwy);** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r cynnydd a fu mewn HGVs sy'n defnyddio'r A449 dros y 5 mlynedd diwethaf a beth yw'r cynnydd a ddisgwylir dros y 5 mlynedd nesaf. (WAQ17432)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**David Davies (Mynwy);** Beth yw cyllideb flynyddol Bwrdd Croeso Cymru am bob blwyddyn ers1997. (WAQ17433)

**David Davies (Mynwy);** Faint o incwm sydd wedi dod o dwristiaeth yng Nghymru bob blwyddyn ers 1999. (WAQ17434)

**David Davies (Mynwy)** Faint o arian y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i roi i Fwrdd Croeso Cymru bob blwyddyn ers 1999. (WAQ17435)

**David Davies (Mynwy);** Faint o staff sydd wedi cael eu cyflogi gan Fwrdd Croeso Cymru bob blwyddyn ers 1999. (WAQ17436)

**David Davies (Mynwy);** Faint y mae Bwrdd Croeso Cymru wedi'i wario ar hyrwyddo twristiaeth mewn ardaloedd gwledig bob blwyddyn ers 1999. (WAQ17437)

**David Davies (Mynwy);** Faint o arian y mae Bwrdd Croeso Cymru wedi'i wario ar hyrwyddo twristiaeth mewn ardaloedd dinesig ym mhob blwyddyn ers 1999. (WAQ17438)

**David Davies (Mynwy);** Beth yw cyfartaledd incwm blynyddol gwestai sy'n cael eu rhedeg yn breifat yng Nghymru ym mhob blwyddyn ers 1999. (WAQ17439)

**David Davies (Mynwy);** Faint o westai sydd wedi'u cau yng Nghymru ers 1999. (WAQ17440)

**David Davies (Mynwy);** Faint o dafarndai sydd wedi'u cau yng Nghymru ers 1999. (WAQ17441)

**David Davies (Mynwy);** Faint o dwristiaid sydd wedi ymweld â Chymru ym mhob blwyddyn ers 1999. (WQA17442)

**David Davies (Mynwy);** Faint o deithwyr sydd wedi mynd trwy Faes Awyr Caerdydd ym mhob blwyddyn ers 1999. (WAQ17443)

**David Davies (Mynwy);** Faint o deithwyr sydd wedi mynd trwy Faes Awyr Abertawe ym mhob blwyddyn ers 1999. (WAQ17444)

Gofyn i Bwyllgor y Ty

**Peter Law (Blaenau Gwent);** A wnaiff y Pwyllgor ystyried defnyddio Gwasanaeth Brys Swyddfa'r Post ar gyfer rhoi gwybod am gyfarfodydd ailymgynnull y Cynulliad yn y dyfodol, a fydd hefyd yn defnyddio gweithwyr proffesiynol Swyddfa'r Post. (WAQ17445)